**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Rhaglen Chraffu

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 19 Ionawr 2021 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
| --- | --- | --- |
| C Anderson | J E Burtonshaw | M C Child |
| E W Fitzgerald | J A Hale | D W Helliwell |
| T J Hennegan | P K Jones | W G Lewis |
| G J Tanner | W G Thomas | T M White |

**Aelodau Cyfetholedig Statudol:**

| | |
| --- | --- |
| D Anderson-Thomas | A Roberts |

**Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig**

| | | |
| --- | --- | --- |
| C A Holley | S M Jones | J W Jones |
| P R Hood-Williams | L R Jones | |

**Swyddog(ion)**

| | |
| --- | --- |
| Geoff Bacon | Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Lewis Hinds | Client Services Manager, Property Services |
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Cydlynydd Craffu |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Jamie Rewbridge | Rheolwr Strategol Partneriaethau Hamdden, Iechyd a Lles |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr):
Aelodau Cyfetholedig Statudol:
Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig:

---

### 24 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Rhoddodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol gyngor i Aelodau'r Pwyllgor ar ddatgelu buddiannau personol a rhagfarnol.
Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd Cyril Anderson – Personol – Cofnod rhif 29 – Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio

Y Cynghorydd Jeff Jones – Personol – Cofnod Rhif 29 – Mae ei wraig yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio

Y Cynghorydd Will Thomas – Rhagfarnol – Cofnod Rhif 29 – Aelod o Gyngor Cymuned y Mwmbwls

Y Cynghorydd Mike White – Personol – Cofnod Rhif 29 - Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio

**25 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau.**

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni ddatganwyd pleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

**26 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2020 fel cofnod cywir.

**27 Cwestiynau Gan y Cyhoedd.**

Cyflwynodd aelod o'r cyhoedd y cwestiynau canlynol: -

1) Deallwn mai cylch gwaith y Pwyllgor yw penderfynu ar brydles safle Llwynderw i Gyngor Cymuned y Mwmbwls, gan fod cynllunio ar gyfer yr ailddatblygiad arfaethedig eisoes wedi bod drwy broses lawn ac wedi'i gymeradwyo. A allai'r Pwyllgor gadarnhau bod hyn yn gywir?

2) Rydym yn ymwybodol o'r gefnogaeth gref i ailddatblygu safle Llwynderw gan y cymunedau sglefrfyddio, BMX a sgwter, ymhlith eraill, a'r pryderon a fynegwyd ynglŷn â'r amser y mae'r broses wedi'i gymryd hyd yma. Rydym hefyd yn ymwybodol y bydd y gymuned, wrth i'r cyfyngiadau symud ddod i ben, yn awyddus i fanteisio ar gyfleusterau a difyrion nad ydynt wedi gallu eu mwynhau ers peth amser. Gan ragdybio bod y cynnig yn cael ei gymeradwyo, beth fyddai'r amserlen ragweladwy ar gyfer llofnodi'r brydles, er mwyn galluogi'r ailddatblygiad i ddechrau o ddifri, ac a fyddai'n ymarferol gobeithio y gellid cwblhau'r datblygiad cyn haf 2021?

Cadarnhaodd y Cadeirydd mai nid cylch gwaith Pwyllgor y Rhaglen Graffu oedd gwneud penderfyniad ar y brydles, ond cwestiynu a thrafod y mater gydag aelodau perthnasol y Cabinet ac yna cyflwyno barn y Pwyllgor i'r Cabinet fel y gallai ystyried hyn fel rhan o'u penderfyniadau.

Cadarnhaodd Aelodau'r Cabinet hefyd, pe bai'r penderfyniad yn cael ei gymeradwyo yng nghyfarfod y Cabinet, y byddai'r cyngor yn ceisio symud y mater yn ei flaen cyn gynted â phosib, gan sicrhau hefyd y dilynir y broses briodol yn gywir a chan ystyried y pwysau presennol o ymdrin â pandemig COVID-19.

**28 Sesiwn Holi Aelod y Cabinet: Yr Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth (Y Cynghorydd Rob Stewart).**

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad ar benawdau allweddol Portffolio'r Economi, Cyllid a Strategaeth. Tynnodd sylw hefyd at natur ddigynsail y 9 mis diwethaf a diolchodd i'r holl staff gan gynnwys holl staff yr ysgol yn ogystal ag uwch-swyddogion a chydweithwyr yn y Cabinet sydd wedi gweithio'n galed i ddarparu ymateb i COVID-19.

Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau'n canolbwyntio ar y canlynol:-

COVID-19
- Cynnydd ar y rhaglen frechu – problemau cychwynnol – nodwyd bod bron 21,000 o frechiadau wedi'u rhoi erbyn hyn.
- Rhaglen i roi ail ddos o'r brechiadau.
- Sefydlu tair Canolfan Brechu Torfol – Ysbyty'r Bae, Margam a Chanolfan Gorseinon.
- Cynnydd da o ran brechu staff iechyd a gofal cymdeithasol yn ogystal â phreswylwyr cartrefi gofal.
- Roedd y broses o roi brechiadau i bobl dros 75 oed a 70 oed, wedi dechrau.
- Yr oedd pob un o'r 49 o feddygfeydd bellach yn cymryd rhan yn y rhaglen frechu.
- Ar y trywydd iawn i gwblhau'r 4 grŵp blaenoriaeth cyntaf gan Lywodraeth Cymru erbyn tua 15 Chwefror 2021 – yn dibynnu ar gyflenwadau o'r brechlynnau ac adnoddau.
- Ei nod oedd symud i Grwpiau Blaenoriaeth 5-9 erbyn y gwanwyn
- Posibilrwydd ac ymarferoldeb canolfannau brechu gyrru drwyddo.
- Cynllunio rhag Argyfyngau Lleol – parodrwydd ar gyfer y pandemig a'r gwersi a ddysgwyd, gan gynnwys strwythurau cadernid rhanbarthol sydd ar waith.
- Ymateb i ddarparu ac ailgynllunio gwasanaethau yn ystod y pandemig a sefydlu gweithio o bell.
- Roedd paratoadau ar gyfer Brexit heb gytundeb wedi darparu rhywfaint o gymorth wrth ymateb i COVID-19 a pharodrwydd.
- Cyfradd tâl y gweithwyr rheng flaen/gweithwyr allweddol – mater cenedlaethol.

Brexit
- Effaith Brexit ar Abertawe yn sgîl y cytundeb y cytunwyd arno – dyddiau cynnar, protestiadau gan y diwydiant pysgota, rhai problemau'n ymwneud â masnach ddiffwdan.
- Anhawster gweld effaith lawn ochr yn ochr â'r pandemig.
- Dangosodd asesiad blaenorol y byddai Cymru'n colli £1.5 biliwn o leiaf hyd yn oed pe byddai bargen dda.
- Pwysigrwydd gwneud y gorau o'r sefyllfa bresennol.
- Parhau i fonitro goblygiadau Brexit.
- Cynnydd ac eglurder ynghylch y Gronfa Ffyniant Gyffredin.
- Pwysigrwydd cynllun ERASMUS a'r posibilrwydd o barhau â'r cynllun.
- Cynnal a gwella cysylltiadau â Mannheim – gefeilldinas Abertawe yn yr Almaen.

- Diogelu hawliau gweithwyr – gweithlu medrus sy'n cael eu talu'n dda.

Cyllideb

- Y gallu i gyflwyno cyllideb gytbwys yng ngoleuni Brexit a COVID-19 – rhagwelwyd y byddai cyllideb gytbwys yn cael ei chyflwyno a'r gobaith oedd cael cyllideb gadarnhaol.
- Gwaith rhyfeddol y tîm cyllid wrth weinyddu cymorth/grantiau/cefnogaeth yn ystod y pandemig.

Gweithio mewn Partneriaeth a Gweithio'n Rhanbarthol

- Edrych ar weithio mewn partneriaeth ac a fyddai'n werth dod â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg at ei gilydd – gan edrych ar ôl troed gweithio'n rhanbarthol a symleiddio strwythurau.

Canol y ddinas

- Cyfansoddiad y 467 o swyddi ychwanegol a ragwelir (cyfwerth ag amser llawn) a grëwyd yn sgîl datblygiad yr arena.
- Sefyllfa bresennol Debenhams - siop a phenderfyniadau cenedlaethol, ond byddai'r cyngor yn ceisio cefnogi lle bo'n bosib.

**Penderfynwyd** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at yr Arweinydd, gan adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor.

## 29 Craffu Cyn Penderfynu: Prydles arfaethedig i Gyngor Cymuned y Mwmbwls dan y Polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol.

Roedd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth, Aelod y Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau, a swyddogion perthnasol yn bresennol er mwyn i'r Pwyllgor ystyried adroddiad y Cabinet ar 'Brydles Arfaethedig i Gyngor Cymuned y Mwmbwls dan y Polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol'

Roedd adroddiad y Cabinet yn ymwneud â gwaredu tir i Gyngor Cymuned y Mwmbwls er mwyn adeiladu a rheoli Parc Sglefrio newydd ar y safle y cyfeirir ato fel Llwynderw.

Amlygodd Aelod y Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau yr adroddiad cynhwysfawr a nododd fod caniatâd cynllunio wedi'i roi. Roedd yn gyfle cyffrous i'r ddinas.

Amlygodd y Cadeirydd y ffaith nad oedd y Pwyllgor yn gwneud penderfyniad ar y brydles, ond ei fod am roi ei farn ac unrhyw argymhellion i'r Cabinet.

Arhosodd y Cynghorydd Will Thomas yn y cyfarfod i roi barn yn unig, gan ddweud bod angen gwelliannau i'r broses o drosglwyddo asedau cymunedol, yna gadawodd y cyfarfod, heb gymryd unrhyw ran yn y drafodaeth ar yr eitem hon.

Mynegodd y Cynghorydd Linda-Tyler Lloyd, y cymeradwywyd ei chais i annerch y Pwyllgor, farn fel aelod lleol am leoliad datblygiad arfaethedig y parc sglefrio gan

Gyngor Cymuned y Mwmbwls a'r manteision o ddefnyddio safle Lido Blackpill ar gyfer y datblygiad yn lle.

Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau'n canolbwyntio ar y canlynol:-

- Materion diogelwch am ei fod wrth ymyl y brif ffordd a mynediad i'r datblygiad
- Effaith ar yr ardal gyfagos, gan ei bod yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
- Caniatâd Cynllunio – asesiadau effaith adroddiadau priffyrdd ac ecolegol, yn ogystal ag argymhellion/gofynion cynllunio
- Adroddiad annibynnol a luniwyd gan Gyngor Cymuned y Mwmbwls ar safleoedd posib
- Ymateb i ymgynghoriad – ymatebion cadarnhaol ar y cyfan gydag ymateb mawr gan bobl ifanc hefyd

Diolchwyd Aelod y Cabinet a'r Swyddogion gan y Cadeirydd.

I gloi, cytunodd y Pwyllgor yr aethpwyd i'r afael â'r holl gwestiynau a godwyd a'u bod yn hapus i gefnogi'r penderfyniad arfaethedig yng ngoleuni'r ymateb cadarnhaol i'r ymgynghoriad ynglŷn â gwaredu, a'r tebygolrwydd y byddai'r datblygiad yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus gan y Cyngor Cymuned a chanlyniad cadarnhaol i'r ddinas a defnyddwyr, yn enwedig pobl ifanc.

**Penderfynwyd** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at Aelod y Cabinet yn amlinellu barn y Pwyllgor, a chaiff adborth ei gyflwyno i'r Cabinet ar 21 Ionawr 2021 cyn iddynt benderfynu ar adroddiad y cabinet.

## 30 Aelodaeth Paneli a Gweithgorau Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar 'Aelodaeth Paneli a Gweithgorau Craffu', yn dilyn cytuno ar raglen waith craffu

**Penderfynwyd** ychwanegu'r Cynghorydd June Burtonshaw at Weithgor Craffu'r Gwasanaethau Bysus.

## 31 Rhaglen Waith Craffu 2020/2022

Cyflwynodd y cadeirydd adroddiad am Raglen Waith Craffu 2020/22.

Nododd y Cadeirydd fod cyfarfod nesaf Pwyllgor y Rhaglen Graffu ar 16 Chwefror 2021 lle trefnwyd cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc. Hysbysodd y Pwyllgor hefyd y byddai'r gwaith craffu cyn penderfynu arfaethedig ar adroddiad y Cabinet 'Achos Busnes dros Adleoli'r Ganolfan Ddinesig' yn cael ei ohirio i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth gan fod yr adroddiad hwn bellach wedi'i restru ar gyfer Cabinet mis Mawrth.

Rhybuddiodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor am gyswllt cyhoeddus diweddar ynghylch cynlluniau Teithio Llesol y cyngor a phryderon penodol a ddygwyd i sylw'r pwyllgor craffu. Gwahoddodd Aelodau'r Pwyllgor i ystyried a ddylid gofyn i Aelod y

Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd i'r Pwyllgor ddod i drafodaeth a allai ganolbwyntio ar y broses ymgynghori a ddilynwyd, ac i fyfyrio ar brofiad diweddar a phryderon y cyhoedd.

**Penderfynwyd** y dylid gwahodd Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd i gyfarfod mis Chwefror y Pwyllgor i drafod y broses ymgynghori ar Deithio Llesol.

## 32 Llythyrau Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar 'Llythyrau Craffu' er gwybodaeth.

**Penderfynwyd** y dylid nodi cofnod llythyrau'r Tîm Craffu.

## 33 Dyddiad ac Amser Cyfarfodydd Paneli/Gweithgorau Sydd ar Ddod.

**Nodwyd** dyddiadau ac amserau cyfarfodydd nesaf paneli/gweithgorau.

**Llythyr at Aelod y Cabinet - Craffu Cyn Penderfynu**

**Llythyr at Aelod y Cabinet - Sesiwn Holi ac Ateb**

Daeth y cyfarfod I ben am 5.30 pm

**Cadeirydd**